YSGOL GLAN CLWYD

Meithrin Cymry Blaengar

Pennaeth Mewn Gofal / *Acting Headteacher:* Mrs Sian Alwen
Ffordd Dinbych, Llanelwy, Sir Ddinbych, LL17 ORP
01745 582611
ysgol.glanclwyd@sirddinbych.gov.uk
www.ysgolglanclwyd.co.uk
@ysgolglanclwyd

# Swydd: Athro / Athrawes
# Graddfa Cyflog Athrawon

Mae'r ysgol yn awyddus i benodi Athro / Athrawes Cynradd sydd â diddordeb mewn trosglwyddo i'r sector uwchradd fel rhan o gynllun pontio Llywodraeth Cymru. Bwriad y cynllun yw cynyddu nifer yr athrawon cyfrwng Cymraeg o fewn y sector uwchradd. Fel rhan o'r cynllun byddwch yn ymuno â thîm addysgu Ysgol Glan Clwyd am flwyddyn gan dderbyn cefnogaeth wrth addysgu o fewn y sector uwchradd. Gwahoddwn geisiadau gan athrawon brwdfrydig a blaengar o'r sector cynradd sydd â diddordeb mewn ehangu eu profiadau mewn ysgol uwchradd. Yn ogystal, croesewir ceisiadau gan athrawon cynradd ac uwchradd sydd am ddychwelyd i ddysgu yng Nghymru neu athrawon sydd am ddychwelyd i'r proffesiwn.

Mae Ysgol Glan Clwyd yn ysgol gyfun ar gyfer dros 1,000 o bobl ifanc 11-18 oed gyda thraddodiad o ddarparu profiadau ac addysg ddwyieithog o ansawdd i ddisgyblion ein cymuned. Dyma'r Ysgol Uwchradd Gymraeg gyntaf yng Nghymru ac rydym yn ymfalchïo yn y fraint o ddatblygu plant ac oedolion ifanc Sir Ddinbych yn ddinasyddion cwbl ddwyieithog.

Mae'r cynllun peilot yn cynnig blwyddyn o gyflogaeth yn Ysgol Glan Clwyd i arsylwi ac addysgu o fewn pwnc neu bynciau arbenigol. Mewn cydweithrediad â Phrifysgol Bangor byddwch yn derbyn cefnogaeth i drosglwyddo'n llwyddiannus i addysgu yn y sector uwchradd. Bydd ffocws penodol ar yr agweddau canlynol:

- Cynllunio gwersi
- Asesu, marcio ac adborth
- Rheolaeth ddosbarth
- Datblygu dycnwch
- Sgiliau ieithyddol (yn ddibynnol ar anghenion yr unigolyn).

Bydd gennych Gefnogwr Proffesiynol o fewn yr ysgol a fydd yn cynnal deialog broffesiynol rheolaidd er mwyn eich cefnogi. Bydd eich amserlen yn cynnig cyfnodau estynedig i gynllunio, ymchwilio ac arsylwi yn ogystal ag amserlen ddysgu.

Edrychwn am unigolion brwdfrydig sydd â gweledigaeth gadarn dros ddatblygu disgyblion yn ddysgwyr annibynnol, hyderus a llwyddiannus. Mae'r cyfle hwn yn agored i geisiadau llawn amser neu ran amser.

Mae'r cynllun hwn wedi'i gefnogi gan Lywodraeth Cymru ac ar gael i ymgeiswyr ar draws Cymru.

**Proses ymgeisio:**
Nodwch os gwelwch yn dda NI DDYLID ymgeisio i'r ysgol yn uniongyrchol. Dylech ymgeisio drwy lenwi'r ffurflen gais sydd wedi'i atodi i'r hysbyseb hon gan nodi eich dymuniad o ran lleoliad. Anfonwch eich cais gorffenedig i Lywodraeth Cymru trwy **AthrawonCC.WMTeachers@llyw.cymru** erbyn y dyddiad cau, sef **Dydd Gwener, 23 Chwefror 2024**.

Bydd cyfweliadau yn cael eu cynnal yn yr ysgolion partner rhwng 11-15 Mawrth 2024.

Mae mwy o fanylion am y cyfle hwn ar **Cynllun pontio cynradd i uwchradd cyfrwng Cymraeg** neu os hoffech drefnu ymweliad â'r ysgol neu sgwrs anffurfiol cysylltwch â'r Pennaeth **01745 582611**.

Gwobr Ysgol Ryngwladol Y Cyngor Prydeinig British Council International School Award
CaBan
ActiveMark MarcActif Cymru
Marc Gyrfa Cymru Careers Wales Mark